I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC22-31

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Gorffennaf 2022* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o’r Ddeddf honno â’r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli’r personau y mae’r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â’u tâl, yn rhoi’r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw’r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2022.

(2) Daw’r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Awst 2022.

(3) Mae’r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

### Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth

(**1**) 2006 p. 42.

**Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2021**

**2.**—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2021(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng Nghyfarwyddyd 4 (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) ym mharagraff (4)(b)(i)—

(a) yn is-baragraff (bb)—

(i) yn lle "glefyd anadlol cronig (gan gynnwys asthma)" rhodder "glefyd anadlol cronig megis asthma y mae'n ofynnol cymryd steroidau yn rheolaidd ar ei gyfer, neu glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD)",

(ii) yn lle "clefyd cronig yr arennau" rhodder "clefyd cronig yr arennau sydd yng nghyfnod 3, 4 neu 5",

(iii) ar ôl "clefyd niwrolegol cronig" mewnosoder "megis clefyd Parkinson neu glefyd niwronau motor",

(iv) ar ôl "gwrthimiwnedd oherwydd clefyd" mewnosoder "megis HIV/AIDS",

(v) ar ôl "neu driniaeth" mewnosoder "megis triniaeth canser (a chysylltiadau cartref unigolion sydd mewn perygl)", a

(vi) hepgorer "mellitus";

(b) yn is-baragraff (dd) yn lle "perthyn i iddo. O ran y grŵp hwn, yn ôl disgresiwn y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, yng nghyd-destun grwpiau risg clinigol eraill ar restr o gleifion y contractwr hwnnw, y penderfynir a ddylid cynnig brechu ai peidio," rhodder "perthyn iddo,";

(c) yn y troednodyn i is-baragraff (gg) yn lle " Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol sy'n darparu cymorth brys uniongyrchol fel rhan o gynllun a weithredir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru", rhodder "Aelodau actif o gynllun Ymatebwr Cyntaf Cymunedol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sy'n darparu cymorth cyntaf yn uniongyrchol i'r cyhoedd";

(d) yn is-baragraff (jj) yn lle "yn afiachus o ordew ac yn 18 oed neu'n hŷn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno" rhodder "yn afiachus o ordew (gordewdra dosbarth III), a ddiffinnir fel y rheini sydd â Mynegai Màs y Corff (BMI) o 40 neu uwch, ac yn 16 oed neu'n hŷn";

---

(**1**) LlC21-73.

(e) yn is-baragraff (nn) hepgorer “a”; ac

(f) ar ôl is-baragraff (nn) mewnosoder—

“(oo) salwch meddwl difrifol,

(pp) epilepsi,

(qq) cysylltiadau cartref unigolion sydd â system imiwnedd wan,

(rr) unigolion sy’n profi digartrefedd, a”.



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Cyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiedig: 29 Gorffennaf 2022**